



Ydw i'n Gymwys?

Rydych yn gymwys i hurio moped gydag Olwynion i'r Gwaith Abertawe os yw'r datganiadau isod yn berthnasol i chi:

1. Rydych yn byw yn ardal awdurdod lleol Cyngor Abertawe
2. Rydych yn 17 oed neu'n hŷn ac mae gennych drwydded yrru lawn neu dros dro.
3. Mae gennych swydd yr ydych mewn perygl o'i cholli neu gynnig cyflogaeth na allwch ei dderbyn oherwydd anawsterau teithio.
4. Nid oes gennych eich cerbyd eich hun.
5. Mae'n rhy bell (neu beryglus) i gerdded neu feicio i'ch cyflogaeth a nid oes unrhyw gludiant cyhoeddus ar gael ar yr adegau angenrheidiol, ac ni allwch rannu lifft gydag aelod o'r teulu neu ffrind neu weithwyr eraill na phrynu eich cerbyd eich hun.
6. Mae gennych gyfrif banc y gallwch ei ddefnyddio i dalu debyd uniongyrchol h.y. cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu undeb credyd.
7. Caiff y cerbyd ei ddefnyddio i deithio i'r gweithle ac oddi yno. Efallai gellir ei ddefnyddio hefyd am waith sy'n cynnwys elfen o deithio yn y gymuned, e.e. gwaith gofal yn y gymuned, ond ni ellir ei ddefnyddio am gyflogaeth lle mae defnydd o gerbyd preifat/rhent yn hanfodol i gynnig y swydd a disgwylir ei ddefnyddio ar gyfer y swydd honno e.e. gwaith dosbarthu.
8. Gallwch dalu blaendal gwerth £100, a bydd rhan ohono'n ad-daladwy os dychwelir y beic mewn cyflwr da.
9. Gallwch fforddio gwneud taliad wythnosol o £36
10. Mae gennych le diogel i barcio'r cerbyd sydd heb fod ar y ffordd (y tu mewn, mewn adeilad allanol neu garej).
11. Mae gennych ganolwr os ydych chi'n 25 oed neu'n iau.
12. Gallwch dalu'r tâl yswiriant dros ben sef £350.
13. Nid ydych wedi cael unrhyw gollfarn foduro yn ystod y 5 mlynedd diwethaf.

Mae'r gost hurio hon yn werth gwych am arian gan ei bod yn cynnwys y moped yn ogystal ag:

- Yswiriant cynhwysfawr
- Cyfarpar diogelwch
- Treth car
- Bathodynau 'L'
- Gwaith cynnal a chadw cynlluniedig
- Clo i gadw'ch moped yn ddiogel ar ôl ei barcio
- Help os bydd y moped yn torri lawr



Hyfforddiant

Mae eich diogelwch yn flaenoriaeth i ni ac rydym am sicrhau eich bod yn cael eich hyfforddi a'ch paratoi'n llawn cyn dechrau ar eich bywyd newydd ar y ffordd ar ddwy olwyn. Felly, mae'n rhaid i bob cleient gwblhau Hyfforddiant Sylfaenol Gorfodol (HSG) oni bai fod ganddo dystysgrif HSG neu feic modur cyfredol.

Yn ogystal â'ch hyfforddiant, mae'n bwysig eich bod yn cael yr holl ddiplad diogelwch sy'n angenrheidiol er mwyn eich diogelu wrth deithio ar y ffordd. Byddwch yn derbyn:

- Helmed ddiogelwch
- Menig beicio clustogog
- Siaced gwelededd uchel
- Trowsus beicio
- Esgidiau beicio

Gall y cleient brynu cyfarpar diogelwch ychwanegol am bris rhad drwy raglen Olwynion i'r Gwaith

Ar ôl ei chwblhau, dychwelwch y ffurflen gais hon i:

Olwynion i'r Gwaith Abertawe
Uned Trafnidiaeth
Ffordd y Brenin
Ystâd Ddiwydiannol Gorllewin Abertawe
Fforest-fach
Abertawe
SA5 4DL

Neu e-bostiwch wheelstowork@abertawe.gov.uk



FFURFLEN CAIS AM FOPED OLWYNIION I'R GWAITH ABERTAWE

Enw'r Cleient	
Rhif ffôn	Cartref: _____ Ffôn symudol: _____
Cyfeiriad e-bost	
Cyfeiriad	
Dyddiad geni	
Rhif yswiriant gwladol	
Rhyw	Gwryw <input type="checkbox"/> Benyw <input type="checkbox"/>
MANYLION GYRFA Rhowch fanylion y gwaith/hyfforddiant presennol rydych wedi cael eu cynnig Byddai angen cadarnhad gan eich cyflogwr arnom er mwyn profi eich bod yn gweithio, neu wedi derbyn cynnig cyflogaeth/hyfforddiant er mwyn ein galluogi i sicrhau bod y sgwter yn cael ei ddefnyddio'n briodol	Enw'r cyflogwr neu'r cyflogwr posib: Cyfeiriad y cyflogwr: Rhif ffôn y cyflogwr: Person y gallwn gysylltu ag ef: Dyddiad dechrau: Atodwch lungopi o dystiolaeth ysgrifenedig, megis llythyr cynnig swydd - ticiwch y blwch hwn ar ôl i chi wneud hyn <input type="checkbox"/> Ni fydd eich cais yn cael ei brosesu heb hyn.



RHESYMAU DROS Y CAIS Esboniwch pam nad yw darpariaeth cludiant cyhoeddus neu breifat yn diwallu'ch anghenion.	Pam mae angen Olwynion i'r Gwaith arnoch?
BLE CLYWSOCH CHI AM OLWYNION I'R GWAITH?	

Oes gennych drwydded yrru gyfredol lân? Oes/Nac oes

Math: Llawndros dro

Os oes, rhowch y manylion canlynol:

RHIF TRWYDDED:

DYDDIAD DECHRAU:..... DYDDIAD DOD I BEN:.....

MANYLION UNRHYW GOSBAU NEU ARNODIADAU

.....
.....

Bydd angen llungopi o'ch trwydded yrru cyn i chi allu cael eich moped. Ni chewch eich derbyn ar y cynllun os oes gennych 6 phwynt neu fwy.

Mae Olwynion i'r Gwaith yn gweithredu polisi dim goddefgarwch. Ni fyddwn yn goddef cam-drin corfforol, llafar neu unrhyw fath arall o gam-drin neu ymddygiad bygythiol tuag at ein staff. Bydd y cydlynnydd yn cael gwybod am ddigwyddiadau o'r fath ac efallai yr adroddir amdanynt i'r heddlu. Gall y cyflawnwr dderbyn rhybudd neu efallai bydd gofyn iddo adael y prosiect. Os bydd hyn yn digwydd, caiff y moped ei adennill yn syth a'r contract ei ddiddymu. Ni fydd yswiriant y moped yn ddilys. Mae gyrru heb yswiriant yn drosedd, a'r huriwr fydd yn atebol.

AMODAU A THELERAU'N BERTHNASOL. CAIFF Y RHAIN EU TRAFOD GYDA CHI YN Y CYFWELIAD. OS NAD YDYCH YN LLWYDDO I GYDYMFFURFIO Â'R RHAIN CAIFF EICH MOPED EI DYNNU I FFWRDD A BYDDWCH YN GYFRIFOL AM UNRHYW GOSTAU A GAFWYD YN YSTOD Y CYNLLUN.



Cadarnhewch eich bod yn gymwys i gyflwyno cais am y cynllun hwn drwy gwblhau'r rhestr wirio ganlynol. I fod yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn, mae'n rhaid i chi allu rhoi ✓ wrth bob un o'r canlynol:

Cyflwr	✓	X
Rwy'n byw yn ardal awdurdod lleol Cyngor Abertawe		
Mae gennyf cynnig swydd cadarn neu rwyf mewn perygl o golli fy swydd gan nad oes unrhyw gludiant addas ar gael		
Rwyf wedi gwirio nad oes unrhyw gludiant cyhoeddus addas neu opsiynau cludiant eraill ar gael i ddiwallu fy anghenion		
Rwy'n 17 oed neu'n hŷn		
Mae gen i le diogel i barcio'r moped; dan do yn ddelfrydol e.e. garej â chlo/adeilad allanol Nodwch ble byddwch yn cadw'r moped yn eich cyfeiriad cartref.		
Mae gen i drwydded yrru lawn neu dros dro ac rwy'n deall y bydd angen i Olwynion i'r Gwaith Abertawe gadw copi ohoni		
Rwy'n fodlon cwblhau'r hyfforddiant sylfaenol gorfodol cyn cael benthyc y moped		
Mae gennyf gyfrif banc a byddaf yn talu'r ffi hurio wythnosol sef £36 drwy archeb reolaidd, debyd uniongyrchol neu daliad cerdyn ac yn talu blaendal gwerth £100 drwy daliad cerdyn neu arian parod cyn yr hyfforddiant CBT		
Gallaf dalu'r tâl yswiriant dros ben, sef £350, os bydd angen gwneud cais yswiriant, a chytunaf i gwblhau'r holl waith papur perthnasol os bydd angen gwneud cais		
Rwy'n deall mai'r cyfnod benthyc hwyaf ar gyfer Olwynion i'r Gwaith yw 6 mis a bydd gennyf drefniadau cludiant eraill erbyn diwedd cyfnod y benthyciad		
Rwy'n fodlon cydymffurfio ag amodau a thelerau'r cynllun		
Rwy'n deall y bydd cam-drin/colli/difrodi neu gamddefnyddio'r moped yn arwain at gost ychwanegol		
Byddaf yn rhoi manylion gwarantwr a fydd yn gyfrifol am unrhyw gostau sy'n weddill os nad wyf yn gallu eu talu		



CWBLHEWCH Y TABL CANLYNOL GYDA'CH AMSERAU DECHRAU A GORFFEN.

Os ydych chi'n gweithio shifftiau, nodwch yr amserau dechrau a gorffen hwyraf a chynharaf.	DIWRNOD	AMSER DECHRAU	AMSER GORFFEN
	DYDD LLUN		
	DYDD MAWRTH		
	DYDD MERCHER		
	DYDD IAU		
	DYDD GWENER		
	DYDD SADWRN		
	DYDD SUL		

**Cam nesaf y broses yw cyfweiliad â'r Cydlynnydd Olwynion i'r Gwaith
FFONIWCH 01792 522982**



DATGANIAD

Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth rwyf wedi'i darparu'n gywir hyd y gwn i, a fy mod yn cyflwyno cais i brosiect Olwynion i'r Gwaith Abertawe i fenthyca moped er mwyn fy ngalluogi i gyrraedd y gwaith/hyfforddiant fel a ddisgrifir uchod.

Enw (mewn llythrennau bras).....

Llofnod:.....

Dyddiad:.....

Cytunaf i'r amodau a'r telerau uchod.

Llofnod

Hysbysiad o Daliad

Rydym yn derbyn taliadau ag arian parod, gyda cherdyn neu'n bersonol ac efallai byddwn hefyd yn cynnig i'n cwsmeriaid dalu drwy ddebyd uniongyrchol. Darllenwch yr hysbysiad canlynol a'i lofnodi i gadarnhau eich bod yn hapus gyda'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod eich data ariannol a phersonol yn ddiogel.

Hysbysiad preifatrwydd ar gyfer taliadau:

Mae eich data'n ddiogel:

Er mwyn prosesu'ch taliadau'n gywir, efallai bydd Cyngor Abertawe'n gofyn i chi ddarparu rhai manylion personol. Os bydd hyn yn angenrheidiol, byddwn yn gofyn am y manylion y mae eu hangen arnom at y diben hwn yn unig. Caiff y manylion eu storio'n ddiogel a'u rhannu â'r maes gwasanaeth y mae'r taliad yn berthnasol iddo'n unig. Caiff y data ei storio am y cyfnod y bydd ei angen yn unig.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel un sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus.

I gael mwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gweler ein hysbysiad preifatrwydd yn

www.abertawe.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd



Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Defnyddir eich gwybodaeth i gyflwyno'r gwasanaeth a geisiwyd gennych, ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti heb eich caniatâd oni bai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel un sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni contract. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.

Caniatâd Angenrheidiol

Mae Olwynion i'r Gwaith yn prynu ei sgwteri a'i gyfarpar o Thunder Road Motorcycles, Heol Tremains, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 11UA, ac yn ei ddefnyddio i wneud gwaith cynnal a chadw a gwasanaeth.

Cytunaf i rannu fy manylion â Thunder Road fel y gall gysylltu â mi mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw, gwasanaeth a thorri i lawr.

Llofnod

Dyddiad



Gwarantwr Olwynion i'r Gwaith Dinas a Sir Abertawe

Mae'n rhaid i geisiadau gan ymgeiswyr dan 25 oed gynnwys manylion gwarantwr.

Er mwyn bod yn gymwys i fod yn warantwr, mae'n rhaid i chi fodloni'r amodau canlynol:

- Wedi adnabod yr ymgeisydd am o leiaf ddwy flynedd
- Bod yn breswlydd yn y DU
- Bod rhwng 25 a 75 oed
- Cael cyfrif banc y DU
- Hanes credyd da
- Cael incwm o leiaf £500 y mis a gallu dangos prawf o hwn
- Bod yn ariannol annibynnol ar yr ymgeisydd

Mae Olwynion i'r Gwaith yn cadw'r hawl i wirio manylion gwarantwr. Mae'n rhaid i ddarparwarantwyr ddangos tystiolaeth o'u hoedran, eu cyfeiriad preswyl a'u manylion banc fel y gallwn gynnal y gwiriadau hanfodol. **Os nad ydych yn gwneud hyn ni fyddwn yn parhau â'r cais.**

Fel gwarantwr, chi fydd yn gyfrifol:

- os bydd y cleient yn methu talu ei ffi hurio wythnosol sef £36
- os nad yw'r cleient yn talu unrhyw ddirwyon neu gosbau mewn perthynas â thraffig ffordd, parcio neu dramgwyddau troseddol wrth ddefnyddio'r moped
- os bydd y cleient yn gwrthod talu am unrhyw ddifrod a achosir yn faleisus neu drwy esgeulustod
- os nad yw'r cleient yn talu unrhyw ffioedd yswiriant dros ben

Rwy'n cytuno i'r amodau a'r telerau ac yn deall fy nghyfrifoldebau fel gwarantwr ar y cynllun Olwynion i'r Gwaith

ENW (Gwarantwr).....

ENW (Cleient)

PERTHYNAS

CYFEIRIAD:

.....

CÔD POST:



E-BOST.....

RHIF(AU) FFÔN:

Llofnod

Dyddiad

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Defnyddir eich gwybodaeth i gyflwyno'r gwasanaeth a geisiwyd gennych, ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti heb eich caniatâd oni bai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel un sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni contract. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, darllenwch ein [hysbysiad preifatrwydd](#) corfforaethol ar ein gwefan.



Ffurflen Datganiad y Beiciwr

Enw'r Beiciwr.....

Ydych chi wedi bod yn rhan o ddamwain cerbyd modur dros y tair blynedd diwethaf?

Ydw

Nac ydw

Os ydych, rhowch fanylion:

Ydych chi erioed wedi cael eich dedfrydu o unrhyw gollfarnau moduro neu oes gennych unrhyw erlyniad yn yr arfaeth?

Ydw

Nac ydw

Os ydych, rhowch fanylion:

Ydych chi'n dioddef o unrhyw salwch, corfforol neu feddyliol, a allai effeithio ar eich gallu i feicio'n ddiogel?

Ydw

Nac ydw

Os ydych, rhowch fanylion:

Ydych chi erioed wedi gwneud cais am yswiriant sydd wedi cael ei wrthod, neu wedi derbyn amodau arbennig?

Ydw

Nac ydw

Os ydych, rhowch fanylion:



Oes gennych unrhyw gollfarnau heb ddarod neu unrhyw achosion llys yn yr arfaeth? Oes
Nac oes

Os ydych, rhowch fanylion:

Oes gennych unrhyw ddyfarniadau llys sirol yn eich erbyn neu yn yr arfaeth? Oes
Nac oes

Os oes, rhowch fanylion:

Hyd y gwn i, mae'r datganiadau a'r manylion uchod yn wir ac yn gyflawn ac nid oes unrhyw ffeithiau perthnasol (sef ffeithiau a allai ddylanwadu ar yswiriwr) wedi cael eu gadael alla. Rwyf wedi bod yn breswlydd DU am dros tair blynedd.

PRINTIWCH EICH ENW

Llofnod

Dyddiad

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Defnyddir eich gwybodaeth i gyflwyno'r gwasanaeth a geisiwyd gennych, ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti heb eich caniatâd oni bai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data fel un sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni contract. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data



personol, gan gynnwys eich hawliau fel gwrthrych y data, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan.